

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 4 Mawrth 2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: POLISI / LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Teitl: Rhaglen Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth – Gofynion Data

Dyddiad dod i ben / Adolygu 3 Mawrth 2022

I'w weithredu gan:

Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
yng Nghymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG
Cymru

Angen gweithredu erbyn: ar unwaith

Anfonir gan: Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol, ac Ifan Evans, Cyfarwyddwr Technoleg,
Iechyd Digidol a Thrawsnewid

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru: Is-adran
Iechyd Poblogaeth, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. E-bost: PopulationHealthcare@llyw.cymru

Rhaglen y GIG ar gyfer Gofal Iechyd sy'n seiliedig ar Werth: Gofynion Data

Cefndir

1. Mae *Cymru Iachach*, cynllun iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn nodi'r angen i wasanaethau drawsnewid er mwyn iddynt allu ymateb i heriau'r dyfodol a sicrhau'r canlyniadau gorau.
2. Rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd newydd, hyblyg a mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau sy'n cael y gorau o'r adnoddau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Yn benodol, rhaid inni sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal yn sicrhau'r canlyniadau gorau sydd mor bwysig i bobl. Drwy siarad â chleifion ynghylch eu dymuniadau, a'r hyn y gallai triniaeth ei gyflawni iddynt, mae'n bosibl teilwra gofal iechyd i ddiwallu anghenion yr unigolyn, ac mae pobl yn teimlo eu bod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal iechyd. Pan fydd hyn yn digwydd, yn aml bydd claf yn dewis opsiwn triniaeth mwy ceidwadol gan ei fod yn credu mai dyna'r hyn sydd orau iddo.
3. Mae'r model *Gofal Iechyd Darbodus* wedi gosod sylfaen gref ar gyfer gwella gofal iechyd yng Nghymru, a thrwy ddefnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, gallwn droi amcanion y model hwn yn realiti.
4. Lansiodd y [Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd sy'n seiliedig ar Werth](#) yn yr hydref 2019 (Saesneg yn unig). Roedd yn cynnwys rhaglen dair blynedd i sicrhau bod y dull gweithredu ar gyfer darparu Gofal iechyd sy'n Seiliedig ar Werth yn ymwreiddio fel rhan o droi athroniaeth *Gofal Iechyd Darbodus* yn realiti. Mae Gofal Iechyd sy'n seiliedig ar Werth yn caniatáu i fwy o ffocws gael ei roi ar helpu cleifion i gyflawni eu nodau fel unigolion a gwneud eu dewisiadau eu hunain, drwy roi cyfle iddynt fod yn rhan o'r broses benderfynu, a hynny gyda chymorth y dystiolaeth orau sydd ar gael. Bydd hyn yn helpu i osgoi arferion o werth isel a lleihau amrywiadau diangen yn y gofal a ddarperir, gan neilltuo adnoddau ar gyfer ymyriadau gwerth uchel sy'n gallu helpu i sicrhau canlyniadau gwell.
5. Yng Nghymru, byddwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu a datblygu mesuriadau a dadansoddiadau o ganlyniadau a chostio, drwy ddefnyddio dull cydweithredol i rannu a defnyddio data sy'n gallu helpu i wella gwasanaethau gofal iechyd a sicrhau gwerth i'r claf. Bydd hyn yn cynnwys mesur costau gofal iechyd ar lefel systemau a sicrhau eu bod yn weladwy i dimau clinigol, er mwyn iddynt allu stiwardio adnoddau drwy ddylanwadu o blaid darparu gofal gwerth uchel i'r poblogaethau y maent yn gofalu amdanynt.

6. Mae sefydliadau iechyd a gofal yng Nghymru wedi ymrwymo i ddatblygu eu dulliau gweithredu ar gyfer darparu Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys defnyddio ffyrdd gwell o gasglu ac adrodd ar ddata canlyniadau mewn perthynas ag ystod o gyflyrau meddygol, ac edrych ar amrywiadau diangen mewn gwasanaethau a chanlyniadau, er mwyn gweld a yw gwahanol agweddau ar ofal iechyd yn cael eu tanddefnyddio neu eu gorddefnyddio.

Gofynion data i gefnogi Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth

7. Bellach mae angen egluro'r hyn y dylai ymddiriedolaethau a byrddau iechyd GIG Cymru ei wneud mewn modd cyson ar lefel genedlaethol, fel rhan o'r dull gweithredu system gyfan a ddisgrifir yn y cynllun *Cymru Iachach*. Mae hyn yn cynnwys y camau y mae Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod data priodol ar gael i gefnogi'r ddarpariaeth o Ofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth, hy data a gynhyrchir yn glinigol, a gan y cleifion eu hunain. Felly, mae'r Cylchlythyr hwn yn ymwneud â'r ffynonellau data canlynol:
 - Archwiliadau clinigol ac adolygiadau o ganlyniadau
 - Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs).
8. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i bob un o ymddiriedolaethau a byrddau iechyd GIG Cymru gymryd rhan lawn yn yr holl archwiliadau clinigol a gynhelir ar draws y DU a'r adolygiadau o ganlyniadau a restrir yn y *Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau Canlyniadau ar gyfer 2019/20*. Mae sefydliadau'n gwneud hyn drwy gyflwyno data'n uniongyrchol i'r darparwr archwiliadau neu'r gofrestrfa briodol. Mae WHC/2019/006, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, yn cyfeirio at hyn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-archwilio-clinigol-cenedlaethol-ac-adolygu-canlyniadau-gig-cymru-rhaglen-dreigl-flynyddol-2019-2020.pdf>
9. Hefyd, mae sefydliadau iechyd yng Nghymru yn casglu data PROMs, drwy'r platfform PROMs cenedlaethol a phlatfformau eraill. <https://proms-cy.nhs.wales/>
10. Ar hyn o bryd, nid yw byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn anfon data archwilio clinigol a PROMs fel mater o arfer i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.
11. Bydd y ffrydiau data hyn at ddarparwyr archwiliadau a chofrestrfeydd yn parhau. Fodd bynnag er mwyn cefnogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddarparu Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth yng Nghymru, bydd angen i'r data hyn gael eu rhoi i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru hefyd, er mwyn iddo allu eu defnyddio i greu a darparu deunyddiau ar gyfer sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Bydd hynny'n golygu y bydd y canlynol yn bosibl:

- PROM yn cael ei ddelweddu gan gleifion a chlinigwyr yn yr ymgynghoriad
- Dangosfyrddau'n cael eu creu i helpu byrddau iechyd a chlinigwyr i ddelweddu setiau o ddata cysylltiedig er mwyn helpu i ddarparu gofal uniongyrchol, gwella ansawdd, a chynllunio gwasanaethau.

12. Bydd Hysbysiad Newid Safonau Data yn cael ei gynhyrchu gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ystod y misoedd nesaf, er mwyn ceisio symleiddio'r dull gweithredu a sicrhau bod baich gwaith sefydliadau'r GIG yng Nghymru mor ysgafn â phosibl.

Y camau y mae'n rhaid eu cymryd o ganlyniad i'r Cylchlythyr hwn

Rhaid i **Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru** wneud y canlynol:

- **Erbyn Mehefin 2020:** Datblygu Hysbysiad Newid Safonau Data a fydd yn symleiddio llif y data o sefydliadau'r GIG yng Nghymru at Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru;
- **Yn barhaus:** Dechrau defnyddio'r data hyn i greu a darparu delweddau a dangosfyrddau i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, er mwyn iddynt allu eu defnyddio i sicrhau bod dull gweithredu Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth ar waith wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaid i **ymddiriedolaethau a byrddau iechyd GIG Cymru** wneud y canlynol:

- **Yn barhaus:** Parhau i gyflwyno data i archwiliadau clinigol ac adolygiadau o ganlyniadau a gynhelir ar lefel y DU gyfan ac i blatfformau PROMs cenedlaethol;
- **Yn ystod 2020:** Gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sicrhau bod data archwilio a PROMs yn gallu llifo i'r gwasanaeth hwn at ddibenion creu delweddau a dangosfyrddau ar gyfer hwyluso dulliau gweithredu sy'n darparu Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth.

Atodiad A

Gwneir sail Cylchlythyr Iechyd Cymru a phrosesu gwybodaeth yn sgil hynny gan roi ystyriaeth i:

- Adran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i barhau i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr sydd wedi'i gynllunio i sicrhau gwelliant yn iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru. Mae adran 2 o'r Ddeddf honno'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth i hwyluso cyflawni'r ddyletswydd honno, neu sy'n ffafriol neu'n gysylltiedig â hynny.
- Yn unol ag adran 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 mae gan Weinidogion Cymru dyletswydd statudol i drefnu ar gyfer gwasanaeth gofal iechyd i'r graddau y mae'n gweld yn angenrheidiol i fodloni pob gofyniad rhesymol.
- Yn unol â Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009, mae'r ddyletswydd o dan adran 3 o Ddeddf 2006 wedi'i dirprwyo i'r Byrddau Iechyd Lleol.

Mae'r partïon hynny naill ai fel darparwyr neu broseswyr y data'n ddarostyngedig i'r darpariaethau a ddisgrifir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Bydd gan Reolwyr Data a Phroseswyr Data gytundeb sy'n nodi cyfrifoldebau'r ddau barti.

At ddibenion y llifoedd data sydd eisoes wedi'u sefydlu o fewn cytundebau presennol, dibynnir ar yr amodau canlynol o GDPR hefyd o dan yr amgylchiadau hyn:

Erthygl 6(1) (c) a (e):

“(c) processing is necessary for compliance with a legal obligation to which the controller is subject;

(e) processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller. “

Erthygl 9(2) (h) a (i):

“(h) processing is necessary for the purposes of preventive or occupational medicine, for the assessment of the working capacity of the employee, medical diagnosis, the provision of health or social care or treatment or the management of health or social care systems and services on the basis of Union or Member State law or pursuant to contract with a health professional and subject to the conditions and safeguards referred to in paragraph 3;

(i) processing is necessary for reasons of public interest in the area of public health, such as protecting against serious cross-border threats to health or ensuring high standards of quality and safety of health care and of medicinal products or medical devices, on the basis of Union or

Member State law which provides for suitable and specific measures to safeguard the rights and freedoms of the data subject, in particular professional secrecy.”

D.S. O dan y gyfraith bresennol, mae proseswyr data'n destun atebolrwydd am fethiant i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau contractiol i'w rheolwyr. Nid ydynt, er hynny, wedi bod yn agored gynt i gamau gweithredu uniongyrchol gan reoleiddwyr neu wrthrychau data.

Mae gan bob parti gyfrifoldeb dros gywirdeb, uniondeb a chyfrinachedd yr wybodaeth a rennir yn yr amgylchiadau hyn.

Dylid defnyddio trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sicrhau bod unrhyw lifoedd gwybodaeth sydd newydd gael eu diffinio'n cael, mapio a'u cofnodi o dan yr un set o amodau a threfniadau.